OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 256

Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023

Rhoi caniatâd cynllunio

3.—(1) Yn ddarostyngedig i erthyglau 4 a 5, rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer—

(a) newid defnydd y tir yn sylweddol at ddiben, neu mewn cysylltiad ag—

(i) unrhyw weithgaredd sy'n ffurfio rhan o swyddogaethau, neu sy'n gysylltiedig â swyddogaethau, y mae'n ofynnol eu cyflawni gan neu ar ran adran ffin mewn cysylltiad â cherbydau a nwyddau sy'n dod i mewn i Brydain Fawr neu'n ymadael â hi, neu sydd ar fin dod i mewn i Brydain Fawr neu sydd ar fin ymadael â hi, drwy Borthladd Caergybi, gan gynnwys—

(aa) cofnodi cerbydau sy'n mynd i'r ardal ddatblygadwy neu'n ymadael â'r ardal ddatblygadwy;

(bb) darparu, adnewyddu, gwirio, ardystio a chymeradwyo datganiadau tollau, trwyddedau a dogfennau eraill sy'n ymwneud â cherbydau a nwyddau;

(cc) archwilio nwyddau, ymafael ynddynt a'u cadw;

(dd) arolygu cerbydau a nwyddau at unrhyw ddiben cyfreithlon arall;

(ee) storio neu ddal nwyddau sy'n cael eu cludo mewn cerbydau;

(ff) gwirio cerbydau,

(ii) lleoli cerbydau yn gysylltiedig â hynny, ac unrhyw faterion sy'n ategol i hynny, gan gynnwys atgyweiriadau brys i gerbydau, a

(iii) mannau parcio a weithredir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol, ar gyfer hyd at 60 cerbyd nwyddau trwm;

(b) yn yr ardal ddatblygadwy, adeiladu, gosod, darparu, gweithredu, cynnal a chadw, gwella neu addasu, datgomisiynu neu symud ymaith unrhyw adeiladau ac arwynebau caled, a chyflawni unrhyw waith a newidiadau i lefelau'r ddaear, sy'n ofynnol neu a ddarperir mewn cysylltiad â defnyddio'r tir yn unol ag is-baragraff (a), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddarparu—

(i) cyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau;

(ii) cyfleusterau ar gyfer personau sy'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd a ganiateir gan is-baragraff (a);

(iii) cyfleusterau diogelwch a derbyn;

(iv) ffyrdd a dulliau mynediad eraill;

(v) unrhyw brif bibell, pibell, cebl neu gyfarpar arall ar gyfer darparu dŵr, nwy, trydan neu wasanaethau eraill;

(vi) unrhyw systemau draenio dŵr brwnt a dŵr wyneb gan gynnwys cwlfertau, ffosydd, pantiau a phyllau;

(vii) arwynebau caled;

(viii) goleuadau;

(ix) ffensys;

(x) arwyddion;

(xi) tirlunio;

(xii) mesurau gostegu sŵn;

(xiii) mannau gwefru ac offer cynhyrchu ynni adnewyddadwy;

(xiv) mannau parcio a weithredir gan neu ar ran Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol, ar gyfer hyd at 60 cerbyd nwyddau trwm;

(c) yn yr ardal rhwng ffin yr ardal ddatblygadwy a ffin y tir—

(i) tirlunio;

(ii) ffensys, ac eithrio ffensys gostegu sŵn;

(iii) rheoli gwastraff a draenio;

sy'n ategol i'r gweithgareddau yn is-baragraffau (a) a (b).

(2) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**1**) yn gymwys i'r tir—

(a) ac eithrio'r brigiad creigiog, ond

(b) os oes gwrthdaro rhwng y Gorchymyn hwn ac unrhyw ddatblygu a ganiateir gan y Gorchymyn hwnnw, mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

(**1**) O.S. 1995/418.